

Sir Ddinbych Hygyrch




Llyn Brenig


Accessible Denbighshire


Key to symbols


 Llwybr

 Ffordd

 Parcio


 Toiledau


 Canolbwynt Wybodaeth

 Bwrdd picnic

 Giât

 Mainc

 Llwybr cul i o leia
60 cm

 Inclein

Llyn Brenig

Gwybodaeth am y Llwybr

Gellir dilyn teithiau llinellol o amrywiol hyd. Mae'r daith gron gyfan yn 15.2 cilometr ac yn cynnwys rhywfaint o rostir grug a thirwedd garw.

Pellter: Hyd 15.2 cilometr / 9.5 milltir

Neilltuwch: Hyd at 6 awr ar gyfer y daith gron gyfan.

Giataiu: Cliriad o 110cm fan leiaf.

Llethrau: Cymedrol ar y cyfan, gydag un rhan gul, sy'n anwastad a charegog.

Lled y Llwybr: Un man mynediad sy'n lleihau lled y llwybr i 60cm.

Arwyneb y Llwybr: Cyfuniad o lwybrau coedwig, tarmac a mawn/pridd naturiol.

Gwybodaeth i Ymwelwyr

Ar gyfer Llywio â Lloeren defnyddiwch:

LL21 9TT

Parcio: Mae parcio ar gael yn y ganolfan ymwelwyr gyda phedwar lle parcio i'r anabl. Maes parcio talu ac arddangos ydi hwn. Mae modd parcio hefyd mewn lleoliadau eraill o amgylch y llyn.

I ddefnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus: Mae rhai gwasanaethau'n stopio yn y ganolfan ymwelwyr. Gweler www.traveline-cymru.info i gynllunio'ch siwrne.

Toiledau: Mae angen allwedd radar i gael mynediad i doiled yr anabl yn y ganolfan ymwelwyr.

Dewch â dillad rhag y glaw a gwisgwch esgidiau addas. Defnyddiwch hufen haul ym misoedd yr haf.

Gwybodaeth bellach: www.denbighshirecountryside.org.uk